**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**13 HYDREF 2022**

Cofnodion Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 13 Hydref 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Ron Davies, Chris Dolphin, Alasdair Ibbotson, Allan Marshall, Vicky Perfect, Kevin Rush, Jason Shallcross, Sam Swash a Linda Thomas

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Rob Davies (yn lle Bill Crease)

**YMDDIHEURIAD:** Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer cofnod rhif 36)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden), y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiad, Cymunedau Gwydn), y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol), Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol a Rheolwr Cyllid Strategol.

Cofnod rhif 36
Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu), Prif Gyfrifydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Paul Carter - Prif Swyddog Cyllid (Ardal y Dwyrain) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm

**32. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**33. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2022 ac fe gawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Kevin Rush.

Ar gofnod rhif 25, penderfyniad (b), dywedodd y Cadeirydd fod y llythyr i Lywodraeth Cymru i gael ei anfon yr wythnos ganlynol.

Ar gofnod rhif 26, cyfeiriodd y Cynghorydd Bernie Attridge at ei gwestiwn ar y gorwariant anrhagweledig ar gyfer gofal preswyl mewnol a oedd "oherwydd costau staff a chynnal". Cytunodd y Rheolwr Cyllid Strategol ddarparu ymateb gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa mis 5.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 34. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y wybodaeth ddiweddaraf ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'i eilio gan y Cynghorydd Rob Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

## 35. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y rhaglen gwaith i'r dyfodol gyfredol i'w hystyried.

Gofynnodd y Cynghorydd Bernie Attridge am farn ar amseriad yr adroddiad ar Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, Adran 13A (Is-adran 1C). Fel cynigydd yr eitem honno yn y cyfarfod blaenorol, nododd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ei fod yn fodlon â'r amserlen ar gyfer mis Mawrth 2023 ac awgrymodd y dylid rhoi'r cyfle i gyrff perthnasol megis Shelter Cymru a Chyngor ar Bopeth Sir y Fflint gyfrannu.

Gofynnodd y Cadeirydd i ddwy o'r eitemau a awgrymodd o'r cyfarfod blaenorol – y wybodaeth ddiweddaraf ar y thema Tlodi ac allanoli/rhannu rhai o wasanaethau'r Cyngor i nodi unrhyw fanteision ariannol - gael eu hamserlennu ar gyfer mis Tachwedd neu fis Rhagfyr i helpu i hysbysu ystyriaethau cyllidebol.

Ar y sail honno, cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Ron Davies.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd; a

(b) Bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 36. PECYNNAU GOFAL A ARIENNIR AR Y CYD

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) y wybodaeth ddiweddaraf ar ddyled hirdymor cyfredol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) mewn perthynas â phecynnau gofal a ariennir ar y cyd a chymorth i unigolion ag anghenion gofal cymhleth.

Cyfeiriodd yr adroddiad hwn at y fframwaith statudol sydd wedi'i roi ar waith gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi trefniadau i'r Byrddau Iechyd ddarparu Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP) yng Nghymru, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill. Manylodd yr Uwch Reolwr ar nifer o heriau allweddol megis y gwahanol gymorth sydd ei angen ar oedolion a phlant, a'r nifer

uchel o becynnau Gofal Iechyd Parhaus a ddarperir yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda chydweithwyr yn y sector iechyd wedi helpu i ddatrys rhai materion sy'n bod ers amser maith yn y broses Gofal Iechyd Parhaus. Mae penodi Swyddog Cynllunio a Datblygu Gofal Iechyd Parhaus o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol wedi galluogi'r tîm i wella prosesau mewnol ac ymgysylltu â BIPBC.

Mewn perthynas â lefelau dyled a adroddwyd ar 5 Medi 2022, roedd ad-daliad o £46,333 wedi'i wneud ers hynny gan BIPBC ar gyfer anfonebau heb eu talu o dair blynedd a throsodd, gyda gwaith yn parhau i glirio'r anfonebau hanesyddol sy'n weddill. Dros y chwe mis diwethaf, roedd gwaith gan y tîm i ganolbwyntio ar ddatrys anfonebau newydd yn brydlon wedi helpu i leihau lefelau dyled tymor byr yn sylweddol. Ers mis Medi 2022, roedd anfonebau gwerth cyfanswm o £260,248 ar fin cael eu prosesu, sy'n ymwneud yn bennaf ag un achos penodol yn ymwneud â phlentyn.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor o gefndir yr adroddiad cychwynnol a rannwyd ym mis Rhagfyr 2021. Roedd ei bryderon yn ymwneud nid yn unig â cholli incwm disgwyliedig ond hefyd am yr amser a gymerwyd i ddatrys anfonebau dadleuol a oedd yn fater llif arian i'r Cyngor.

Eglurodd yr Uwch Reolwr bod y gwelliannau diweddar a roddwyd ar waith wedi arwain at ddealltwriaeth glir o'r prosesau ar y ddwy ochr.

Rhoddodd Paul Carter sicrwydd bod BIPBC yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr y Cyngor i brosesu anfonebau cyfredol mewn modd amserol a bod ymgysylltu rheolaidd â swyddogion ar bob lefel i egluro'r rhesymau dros dalu anfonebau hanesyddol nad oedd wedi bod yn destun yr un broses drylwyr yn rhannol neu beidio â'u talu. Er ei fod yn obeithiol y byddai tua £250,000 o anfonebau oedd fod i gael eu hystyried gan banel BIPBC yn cael eu cymeradwyo i leihau'r ddyled hanesyddol ymhellach, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt i ganfod gwybodaeth ategol ar dri achos sy'n weddill gwerth cyfanswm o £350,000 a thros £400,000 o anfonebau yn ymwneud â phlant er mwyn i BIPBC allu cymeradwyo'r taliadau hynny. Yn benodol, ni chanfuwyd gwybodaeth ar ddau achos cost uchel hyd yma.

Codwyd pryderon gan y Cynghorydd Bernie Attridge ynghylch goblygiadau ariannol y ddyled sydd heb ei thalu, o ystyried y diffyg amserlen a rhagolwg cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24. Dywedodd y dylai gweithdrefnau sydd i'w trafod mewn gweithdy wedi'u hwyluso eisoes gael eu deall yn glir.

Pwysleisiodd Paul Carter er bod prosesau priodol ar waith i gymeradwyo taliadau, ni ellir talu anfonebau heb yr hawl angenrheidiol a'r gwaith papur ategol. Roedd yn obeithiol y gellid datrys materion, ond nid oedd yn gallu rhoi amserlen heb fod y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu i gefnogi'r taliadau hynny.

Fel diweddariad ar y sefyllfa gyfredol, adroddodd yr Uwch Reolwr bod y ddyled sydd heb ei thalu o 2016 wedi'i lleihau i £1,461 a bod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â gwerth £12,518 o anfonebau o 2017. Yr amcangyfrif cyfredol o ddyled ar gyfer 2018 oedd £34,890.

Croesawodd y Prif Weithredwr y drafodaeth ar y mater pwysig hwn y dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor amdano. Wrth ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â'r mater am eu gwaith, bu iddo sôn am yr angen i flaenoriaethu achosion cost uchel er mwyn cael effaith ar lefelau dyledion cyffredinol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu presenoldeb a chynigiodd argymhelliad ychwanegol a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Bernie Attridge.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran rheoli cyllideb yn rhagweithiol ar gyfer anfonebau heb eu talu a godwyd gan y Cyngor i'w talu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; a

(b) Bod dyled pecyn gofal a ariennir ar y cyd dros 90 diwrnod yn cael ei ystyried ar frys i ddeall sut y gellir lleihau'r ddyled hon mewn modd amserol. Dylai'r gwaith gael ei wneud gan Bennaeth y Gwasanaeth ac Aelod Cabinet ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn fisol.

## 37. CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y blaenoriaethau sydd wedi'u hadnewyddu, is-flaenoriaethau ac amcanion lles yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, a oedd yn adlewyrchu agwedd hirdymor adferiad, prosiectau ac uchelgeisiau dros y cyfnod.

Cwestiynodd y Cadeirydd effaith swyddi gwag ar gyflawni is-flaenoriaethau ychwanegol o dan y flaenoriaeth 'Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd.' Cwestiynodd hefyd yr angen am is-flaenoriaethau o dan 'Cyngor a Reolir yn Dda' a oedd yn ei farn ef naill ai'n ofynion statudol, yn rhan o gynllunio dyddiol neu fusnes fel arfer, gan gynnwys Digidol a adlewyrchwyd mewn rhan arall o Gynllun y Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y newidiadau'n briodol ac yn dangos gweledigaeth ar gyflawni'r ffrydiau gwaith hynny. Atgoffwyd yr aelodau mai dogfen gryno lefel uchel oedd hon gyda manylion pellach i'w hadrodd yn Rhan 2 o Gynllun y Cyngor.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cadeirydd, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod is-flaenoriaethau'r thema Cymdeithas Werdd yn ymgorffori dyletswyddau statudol newydd ar gyfer y Cyngor. Rhoddodd hefyd eglurhad ar wahanol ffrydiau gwaith digidol yn ymwneud â'r gweithlu, trigolion ac ysgolion ar draws y blaenoriaethau.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Johnson mai'r nod ar hyn o bryd yw cytuno ar benawdau ar gyfer y blaenoriaethau ac is-flaenoriaethau cyn i fwy o wybodaeth gael ei rhannu. Siaradodd am bwysigrwydd nodi dyheadau'r Cyngor, gan gynnwys gweithgareddau bob dydd.

O ran yr is-flaenoriaeth Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd, holodd y Cadeirydd a ddylid disodli'r gair '*osgoi'* â '*sicrhau'*. O ran Tai Cymdeithasol, awgrymodd y dylid dileu'r geiriau *'a thai cymdeithasol*' o'r diffiniad er mwyn osgoi

ailadrodd gyda'r pennawd. O ran Carbon Niwtral, cwestiynodd a ddylid cynnwys cyfeiriad at adferiad Covid-19.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y geiriad ar gyfer Atal Digartrefedd wedi'i adolygu i adlewyrchu newidiadau mewn gwasanaeth a pholisi Llywodraeth Cymru. Dywedodd y byddai'r sylwadau a godwyd yn cael eu hadolygu.

Ar y sail honno, cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Rob Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y sylwadau, bod y Pwyllgor yn cefnogi Blaenoriaethau, Is-Flaenoriaethau ac Amcanion Lles arfaethedig Cynllun y Cyngor 2023-28, fel y nodir yn Atodiad 1.

**38. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2022/23 (MIS 5)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ym mis 5 2022/23 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cabinet ei ystyried.

O ran Cronfa'r Cyngor, y sefyllfa a ragwelwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn oedd diffyg gweithredol o £0.680miliwn (gan eithrio effaith y dyfarniad tâl y byddai angen ei dalu o arian wrth gefn, a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn £5.268miliwn). Yn dilyn yr hawliad terfynol am Gyllid Caledi Llywodraeth Cymru (LIC) y mis hwn, byddai unrhyw gostau pellach yn ymwneud â Covid-19 yn amodol ar y broses gadarn cyn cael eu talu o'r gronfa frys wedi'i chlustnodi. Rhoddwyd trosolwg o'r amrywiadau sylweddol o fis 4 ar draws portffolios a'u heffaith ar yr alldro rhagamcanol. Roedd diweddariad ar risgiau yn ystod y flwyddyn a materion sy'n dod i'r amlwg yn adrodd ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas ag incwm Treth y Cyngor, effaith dyfarniadau tâl ynghyd â galw uchel parhaus am y gwasanaeth Budd-daliadau a Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir sy'n parhau i gael eu monitro'n agos. Disgwyliwyd i bob un o'r arbedion effeithlonrwydd sydd ar y gweill yn ystod y flwyddyn gael eu cyflawni yn 2022/23. Arweiniodd adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd at ryddhau £1.208miliwn i'r Gronfa Wrth Gefn i gynyddu'r balans rhagamcanol i £7.724miliwn (ac eithrio effaith dyfarniadau tâl).

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, byddai gwariant a ragwelir yn ystod y flwyddyn o £3.308miliwn yn uwch na'r gyllideb yn gadael balans terfynol heb ei glustnodi o £3.166miliwn, a oedd yn uwch na'r canllawiau gwariant a argymhellir.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cadeirydd ar y Cyfrif Refeniw Tai, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod y cyfraniad yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwaith cyfalaf ychwanegol yn ymwneud â chynllun presennol yng Nghoed-llai. Cytunodd y byddai ymateb ar wahân yn cael ei ddarparu ar y rhesymau y tu ôl i golli incwm oherwydd y tai gwag a ddangosir yn Atodiad 5.

Ar yr un testunau, dywedodd y Prif Weithredwr bod cyfeiriad at gynllun Coed Llai wedi'i gynnwys yn adroddiad y Cabinet ym mis Gorffennaf. Rhoddodd sicrwydd bod gwaith helaeth yn cael ei wneud ar hyn o bryd i leihau nifer y tai

gwag, fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau ym mis Medi.

Gofynnodd y Cynghorydd Bernie Attridge am y rhesymau dros yr amrywiad o £0.077miliwn mewn Gwasanaethau Adnoddau a Gwasanaethau wedi'u Rheoleiddio ac a oedd hyn yn gysylltiedig â newidiadau yn y trefniadau ar gyfer arlwyo/glanhau cartrefi gofal. Cytunodd y Rheolwr Cyllid Strategol i ymgorffori ymateb yn y papur briffio a ddarperir ar y gorwariant ar ofal preswyl mewnol. Darparodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol eglurhad ar y gwarged Treth y Cyngor a ragwelir yn gyffredinol a'r dull o ragamcanu incwm ar becynnau gofal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Sam Swash ar y Cynllun Datblygu Lleol, eglurodd swyddogion y defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ble roedd gwariant wedi bod yn fwy na chronfeydd wrth gefn y prosiect.

Pan ofynnodd y Cadeirydd am adolygiad pellach o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod yr adolygiad trylwyr a wnaed eisoes i herio cronfeydd wrth gefn ar draws y sefydliad wedi sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chadw ar gyfer rhwymedigaethau yn y dyfodol, elfennau penodol ac elfennau o arfer rheoli da.

Mewn ymateb i ymholiadau pellach, nododd swyddogion y pennawd portffolio anghywir yn Nhabl 1 a byddent yn darparu ymateb ar wahân ar gyfer yr addasiad cyfrifeg o £0.053miliwn yn y Cyllid Canolog a Chorfforaethol yn ymwneud ag IFRS 9. Yn ystod trafodaeth ar yr addasiad o £0.190miliwn yn adran 1.08, byddai'r Rheolwr Cyllid Strategol yn darparu dadansoddiad ar wahân o effaith hyn a chostau eraill a drosglwyddwyd o'r cronfeydd wrth gefn brys Covid-19 a glustnodwyd i ddangos y sefyllfa ddiweddaraf.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Rob Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 (mis 5), fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

## 39. ADRODDIAD DIWEDDARIAD CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y cynnydd a wnaed hyd yma gyda'r Cydbwyllgor Corfforaethol ar gyfer Gogledd Cymru, gan gynnwys cynlluniau i drosglwyddo'r swyddog arweiniol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) i'r Cydbwyllgor Corfforaethol dros dro er mwyn symud trefniadau trawsnewidiol ymlaen hyd nes gellir penodi swyddog parhaol.

Wrth gydnabod effaith y Cydbwyllgor Corfforaethol ar gynllunio strategol y Cyngor, cynigiodd y Cadeirydd argymhelliad ychwanegol bod y tri Aelod Cabinet perthnasol yn darparu diweddariad rheolaidd ar eu helfennau priodol i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Codwyd pryderon gan y Cynghorydd Bernie Attridge ynghylch diffyg cyfranogiad Aelodau etholedig lleol a’r manteision dilynol i drigolion lleol.

Eglurodd y Prif Weithredwr, er bod trefniadau pontio yn y camau cynnar o gael eu datblygu, bod lle i gynnwys Trosolwg a Chraffu a chynrychiolaeth leol ar ffrydiau gwaith yn ddiweddarach. Soniodd fod y Cydbwyllgor Corfforaethol yn hanfodol i rai o weithgareddau strategol y Cyngor a’r rheini ar lefel ranbarthol. O’r herwydd, roedd yn bwysig i’r Cyngor gael ei gynrychioli er mwyn dylanwadu ar weithgareddau ar gyfer Sir y Fflint ac ar draws y rhanbarth.

Wrth groesawu cydweithio er budd trigolion, cododd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson nifer o bryderon am fodel y Cydbwyllgor Corfforaethol. Y rhain yn bennaf oedd aliniad penderfyniadau ar draws y bartneriaeth, cyfraniad Sir y Fflint at gostau rhedeg a diffyg dylanwad lleol a chraffu ar benderfyniadau’r Cydbwyllgor Corfforaethol. Wrth gydnabod bod y Cydbwyllgor Corfforaethol eisoes yn bodoli, cynigiodd fod Argymhelliad 1 yn cael ei ddiwygio i ddisodli ‘cefnogi’ gyda ‘gwrthwynebu’ i adlewyrchu’r pryderon hyn.

Wrth eilio’r diwygiad, siaradodd y Cynghorydd Sam Swash o blaid sylwadau’r Cynghorydd Ibbotson a rhoddodd enghreifftiau o oblygiadau posibl.

Siaradodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) am drefniadau llywodraethu ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforaethol a’i bwerau cyfyngedig sy'n cynnwys pedwar maes cyfrifoldeb a rennir. Awgrymodd fod y diwygiad yn cynnwys y geiriau ‘mewn egwyddor’ er mwyn adlewyrchu’r pwysigrwydd bod Sir y Fflint yn cadw cynrychiolaeth ar y Cydbwyllgor Corfforaethol.

Mewn ymateb i’r sylwadau a godwyd, rhoddodd y Cynghorydd Ian Roberts enghreifftiau o wasanaethau strategol a oedd yn rhychwantu awdurdodau ar draws y rhanbarth a sicrhaodd yr Aelodau y byddai Sir y Fflint yn parhau i gael llais ar y Cydbwyllgor Corfforaethol. Wrth gymharu gyda GwE (y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol), siaradodd am y potensial ar gyfer cysylltiadau yn y dyfodol â’r strwythur Trosolwg a Chraffu presennol.

Cydnabu'r Cadeirydd fwriad y diwygiad a rhannodd ei bryderon y byddai gan y Cydbwyllgorau Corfforaethol yr un pwerau â phrif awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu, gan gynnwys y gallu i fenthyca ac adennill TAW. Fodd bynnag, dywedodd ei fod yn bwysig i’r Cyngor gael ei gynnwys ac i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu gael y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd.

Eglurodd y Cynghorydd Ibbotson nad bwriad ei ddiwygiad oedd dylanwadu ar gynnydd ar y Cydbwyllgor Corfforaethol yn cael ei adrodd i'r pwyllgorau priodol. Cytunodd i gynnwys y geiriau a awgrymwyd gan y Prif Swyddog a chafodd ei gefnogi gan y Cynghorydd Swash.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion, fel y’u diwygiwyd.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Pwyllgor yn nodi’r adroddiad ac yn gwrthwynebu mewn egwyddor creu'r Cydbwyllgor Corfforaethol rhanbarthol;

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynigion ar gyfer secondiad Cyfarwyddwr Portffolio’r BUE o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r Cydbwyllgor Corfforaethol tan fis Mawrth 2023; ac

(c) Bod yr Aelodau Cabinet sy’n cynrychioli strwythur Cydbwyllgor Corfforaethol yn darparu diweddariadau rheolaidd i’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol, gan gynnwys Adnoddau Corfforaethol.

**40. AELODAU O’R WASG YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am, a daeth i ben am 12.20pm)

...............................
**Y Cadeirydd**